Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Deganwy**
**Park Drive**
**Deganwy**
**Conwy**
**LL31 9YB**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Deganwy

Mae Ysgol Deganwy wedi ei lleoli yn nhref lan y môr Deganwy, yn awdurdod lleol Conwy. Mae wedi ei chategoreiddio'n ysgol cyfrwng Saesneg, yn bennaf, ond yn un sy'n defnyddio'r Gymraeg yn sylweddol. Mae tua chwarter y cwricwlwm yn cael ei addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2. Mae 330 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 41 o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser. Mae disgyblion yn cael eu haddysgu mewn 13 dosbarth oed cymysg.

Y cyfartaledd tair blynedd o ran disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 11%, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan 18% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2012, a phenodwyd y pennaeth ym Medi 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hynod lwyddiannus sy'n bodloni anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig a disgyblion bregus sy'n cael profiad o heriau emosiynol a chymdeithasol dros dro neu dros y tymor hwy. Mae'r cymorth sy'n cael ei roi gan y staff medrus yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniadau disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, a'u parodrwydd i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu. Nodwedd arbennig o dda o fywyd yr ysgol yw'r cwrteisi a'r parch y mae bron pob disgyblion yn eu dangos tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr.

Un o gryfderau eithriadol yr ysgol yw'r ffordd feistrolgar mae arweinwyr wedi datblygu ethos Cymraeg naturiol a chynnwys diwylliant Cymru yn ffocws ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau disgyblion a'u brwdfrydedd tuag at yr iaith a'i threftadaeth.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel i sicrhau lles a chynnydd pob un o'r disgyblion, ac o ran eu datblygu'n ddysgwyr annibynnol o oedran ifanc iawn. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau symbylol a diddorol i ddisgyblion, sy'n eu datblygu'n unigolion uchelgeisiol, hyderus a gwybodus. Maent yn cynnig profiadau dysgu cyfoethog a heriol iddynt mewn amgylchedd dysgu symbylol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at yr amgylchedd dysgu creadigol, lle mae disgyblion yn cael eu hannog i lwyddo.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Sicrhau bod athrawon yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am agweddau ar addysg grefyddol, fel sy'n cael ei ddisgrifio yn y maes llafur cytûn

A3 Gwella medrau pob arweinydd ymhellach o ran gwerthuso gwaith yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu'r Gymraeg yn effeithiol mewn ysgol cyfrwng Saesneg yn bennaf, a'i chynllunio a chymorth effeithiol sy'n bodloni anghenion dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, i'w lledaenu ar wefan Estyn

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau llythrennedd a rhifedd tua hanner y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig, neu uwchlaw, ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd da iawn tuag at eu targedau unigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael cymorth ychwanegol ar gyfer agweddau ar lythrennedd yn gwneud cynnydd da iawn, ac yn bodloni eu targedau personol heriol a dyheadol yn llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr cymwys, annibynnol a gwydn. Maent yn datblygu medrau meddwl a medrau datrys problemau hynod effeithiol, ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus mewn ystod eang o weithgareddau creadigol.

At ei gilydd, mae safon llefaredd ar draws yr ysgol yn eithriadol o uchel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion a'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siaradwyr hyderus a huawdl ac yn mynegi eu hunain yn dda mewn ystod eang o sefyllfaoedd. Yn y blynyddoedd cynnar, mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus yn yr ardal chwarae rôl lle maent yn disgrifio ymgyrch achub Sam Tân yn rhan o'u pwnc. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn arbennig o dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu huwch fedrau ymresymu yn hyderus, er enghraifft wrth drafod eu hymchwiliad gwyddonol ar effeithiau gwrthiant aer ar barasiwtiau ag arwynebedd gwahanol.

Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn mwynhau darllen. O oedran cynnar, gwna'r rhan fwyaf ohonynt gynnydd da o ran adnabod ystod briodol o lythrennau a seiniau, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddarllen geiriau syml. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, gwna'r rhan fwyaf ohonynt gynnydd cryf yn eu medrau darllen. Maent yn darllen yn gywir ac yn rhugl, ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau yn effeithiol wrth wynebu geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynegi eu hoffterau am awduron gwahanol a mathau gwahanol o lyfrau yn hyderus. Mae bron pob un ohonynt yn defnyddio eu huwch fedrau darllen yn llwyddiannus i lithr ddarllen a chip ddarllen testun, er enghraifft wrth drafod y cymeriadau a'r plot mewn stori.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol at ystod o ddibenion. Ym Mlwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio geirfa eang ac ansoddeiriau'n effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur am ddiwrnod gorau eu bywydau. Yng nghyfnod allweddol 2, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu'n llwyddiannus at ystod o ddibenion gwahanol. Maent yn defnyddio iaith ddychmygus a geirfa gyfoethog i greu effaith, er enghraifft darn o destun argyhoeddiadol i annog siopwyr i brynu eitemau penodol yn y siop deganau leol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trefnu eu syniadau'n baragraffau ac yn cymhwyso eu gwybodaeth am strwythurau brawddegau mwy cymhleth yn llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r ffordd mae wedi datblygu ethos Cymraeg cryf yn llwyddiannus, lle mae gan bron pob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu'r iaith a'i defnyddio. Yn y blynyddoedd cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i rigymau a chaneuon Cymraeg. Mae ganddynt yr hyder i ateb a dilyn cyfarwyddiadau a gorchmynion dwyieithog. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ymadroddion priodol, fel 'Mae hi'n oer heddiw' a 'tydy hi ddim yn yr ysgol heddiw' yn hyderus yn ystod sesiynau cofrestru. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn llwyddiannus wrth iddynt symud ymlaen i gyfnod allweddol 2. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer ohonynt yn siarad Cymraeg yn hyderus gan ddefnyddio patrymau iaith maent wedi'u dysgu, er enghraifft wrth siarad am Owain Glyndŵr fel rhan o'u gwaith hanes. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn awyddus i gymryd rhan mewn sgyrsiau Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg dynodedig. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu disgrifiadau byr ohonyn nhw'u hunain gan ddefnyddio fframwaith strwythuredig yn rhwydd. Wrth i ddisgyblion symud drwy gyfnod allweddol 2, mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn amrywio strwythur eu brawddegau ac yn datblygu eu hysgrifennu'n dda. Mae'r medrau hyn yn cael eu datblygu'n effeithiol wrth ysgrifennu ffeil ffeithiau am un o'r cestyll yng Nghymru.

Ar hyd y cyfnod sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gref o rif, mesur a data. Mae llawer o ddisgyblion iau yn y cyfnod sylfaen yn cyfrif yn llwyddiannus hyd at 10 a thu hwnt, ac yn defnyddio strategaethau adio yn dda i wneud cyfrifiadau syml. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn ystod o bynciau ac yn ystod gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 1 a 2, mae disgyblion yn cyfrifo'r amser y bydd wyau deinosor wedi rhewi yn dadmer mewn tri lleoliad gwahanol, fel ar silff ffenestr, ar wresogydd a thu allan. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymhwyso eu medrau ymresymu'n llwyddiannus i ystod o weithgareddau datrys problemau. Ar draws gyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau'n effeithiol i gyd-destun thematig ac yn gweithio'n drefnus ac i safon uchel mewn ystod o weithgareddau mathemategol a rhifedd. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio graddfa ar fapiau yn effeithiol i fesur y pellter rhwng bryngaerau amrywiol yng Nghymru. Mae disgyblion mwy abl ym Mlwyddyn 6 yn dehongli cwestiynau cyd-destunol penagored, ac yn defnyddio amrywiaeth o fedrau rhif yn effeithiol wrth gymharu a chyferbynnu adroddiadau 'Arolwg Traffig' sy'n cynnwys rhifau i ddau bwynt degol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu ystod dda o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac yn eu cymhwyso'n dda ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarthiadau derbyn yn tynnu lluniau o'u gwaith, ac yn rhoi gorchmynion i degan rhaglenadwy i fynd â sbwriel i fin penodol wrth ddidoli deunyddiau ailgylchadwy. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu'n dda ar eu medrau TGCh blaenorol. Maent yn defnyddio rhaglen prosesu geiriau yn hyderus ac yn newid ffont a lliw'r llythrennau'n effeithiol, ac yn defnyddio cronfa ddata ganghennog yn llwyddiannus i ddosbarthu creigiau gwahanol yn seiliedig ar eu priodweddau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar frig cyfnod allweddol 2 yn dechrau defnyddio taenlen yn bwrpasol yn ystod gwers wyddoniaeth, ac yn defnyddio fformiwla briodol i gyfrifo'r cymedr. Maent yn creu cronfa ddata chwiliadwy ar sail cymeriadau mewn gêm ar-lein neu dîm pêl-droed yn llwyddiannus, ac maent wedi datblygu dealltwriaeth o sut i osod y meysydd yn ddewisiadau 'ie' a 'na' syml.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn foesgar ac yn gwrtais iawn. Maent yn annog ei gilydd i lynu at werthoedd yr ysgol ac yn dangos agwedd ofalgar, ystyriol a pharchus tuag at ei gilydd. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhagorol yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr yn yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau cymdeithasol da, ac maent yn rhyngweithio â'i gilydd, staff ac ymwelwyr yn hyderus ac yn aeddfed. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau yn yr ystafell ddosbarth ac yn gwneud hynny'n hynod effeithiol. Mae'r disgyblion hŷn yn trafod pwysigrwydd gwydnwch yn dda iawn ac yn gwybod pryd i gynnwys pobl eraill wrth iddynt wynebu heriau. Gyda chymorth wedi'i gynllunio'n ofalus, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n wynebu anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn datblygu strategaethau effeithiol i reoli eu hymddygiad eu hunain. Maent yn datblygu medrau i hunanreoleiddio'n gyflym, yn ôl yr angen, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar greu amgylchedd dysgu llonydd a thawel.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gadarn o gadw'n heini ac yn iach. Er enghraifft, mae gwaith y grŵp bwyd iach 'BoB' (Bwyd o Bwys) yn atgyfnerthu'r agwedd hon ar fwyta'n iach yn llwyddiannus.

Yn nodedig, mae disgyblion yn rhannu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cynnal agwedd feddyliol gadarnhaol yn eu hagwedd tuag at yr ysgol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o ddiogelwch ar-lein. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r eco gyngor yn cyflawni eu dyletswyddau'n ddiwyd ac yn cael effaith gadarnhaol ar y profiad ysgol i bob disgybl, yn enwedig drwy godi arian ar gyfer amrywiaeth eang o elusennau lleol a chenedlaethol, mewn ffyrdd creadigol iawn yn aml. Er enghraifft, gwnaethant drefnu 'Marathon Deganwy', lle cerddodd neu rhedodd yr ysgol gyfan bellter Marathon Llundain. Fodd bynnag, ar adegau, mae ychydig o'r grwpiau disgyblion hyn yn dueddol o fod yn rhy ddibynnol ar oedolion i weithredu. Mae grwpiau eraill o ddisgyblion yn uchel eu cymhelliant ac yn gweithio'n ddiwyd i atgyfnerthu gwybodaeth a medrau disgyblion. Er enghraifft, mae aelodau'r 'Criw Cymraeg' yn llwyddiannus o ran annog eu cyfoedion i ddefnyddio'r Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac yn cael dylanwad cryf ar eu hagweddau tuag at ddysgu Cymraeg. Mae hyn yn un o gryfderau nodedig yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'r medrau a'r rhinweddau sydd eu hangen i ddod yn ddysgwyr annibynnol hynod effeithiol. Maent yn dangos awch am wybodaeth, awydd i blesio a dymuniad i ehangu eu dealltwriaeth. Ar frig cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfeirio at gamau penodol y gallant eu cymryd i nodi nodweddion llwyddiant, gwella safonau a datrys unrhyw broblemau y gallent eu hwynebu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn dangos gwydnwch a balchder yn eu gwaith. Yn y blynyddoedd cynnar, mae gallu bron pob un o'r disgyblion i ymateb i gyfarwyddiadau ymhell uwchlaw'r disgwyl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol iawn yn unig, mewn partneriaid parablu ac mewn grwpiau. O ganlyniad, mae gallu disgyblion i symud yn ddiymdrech o un arddull o weithio a dysgu i'r llall yn gryfder penodol. Er enghraifft, gall disgyblion fesur ac enwi onglau'n unigol, gan symud yn gyflym i weithgaredd 'pelen eira', lle daw pedwar disgybl at ei gilydd i gymharu atebion a chynorthwyo ei gilydd wrth ddysgu.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae athrawon a staff cymorth yn meithrin perthynas waith gref iawn â disgyblion, sydd wedi'i seilio ar gyd-barch ac yn hybu amgylchedd dysgu hapus a chadarnhaol. Maent yn annog disgyblion i wneud eu gorau glas yn eu hymdrechion a chyflawni hyd eithaf eu gallu, gan eu galluogi i ddod yn fwy gwydn wrth wynebu unrhyw heriau.

Ar y cyfan, mae dulliau addysgu yn gyson ar draws yr ysgol. Mae bron pob un o'r athrawon yn pennu amcanion dysgu clir i ddisgyblion ac yn rhoi cyfarwyddiadau manwl iddynt ar ddechrau gwersi, sy'n eu galluogi i fwrw ymlaen yn gyflym â'r dasg dan sylw. Maent yn defnyddio ystod o adnoddau'n effeithiol i ysbrydoli ac ennyn diddordebau disgyblion. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o bob disgybl, ac maent yn defnyddio technegau holi yn llwyddiannus i fesur eu dealltwriaeth a'u hannog i ymestyn eu hymatebion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn targedu anghenion grwpiau o ddysgwyr yn effeithiol ac yn darparu tasgau sy'n bodloni eu hanghenion. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn sicrhau bod rhediad da i wersi gan ddefnyddio 'arosfannau' i wirio cynnydd disgyblion. Trwy ddefnyddio sylwadau adeiladol yn effeithiol, mae disgyblion yn nodi eu hunain sut i symud eu dysgu yn ei flaen. Trwy raglenni ymyrraeth pwrpasol, mae cynorthwywyr addysgu yn cynnig cymorth effeithiol a gwerthfawr i unigolion a grwpiau targed. Mae eu harbenigedd a darpariaeth werthfawr yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae athrawon yn defnyddio meini prawf llwyddiant penodol yn effeithiol, sy'n galluogi disgyblion i ddeall yr hyn sy'n ofynnol ganddynt i gwblhau tasgau'n llwyddiannus. Ar frig cyfnod allweddol 2, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion lunio eu meini prawf llwyddiant eu hunain gan ddefnyddio enghreifftiau o fodelau sy'n eu galluogi i weithio tuag at y deilliant dymunol yn annibynnol. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd helaeth i werthuso eu gwaith a gwaith disgyblion eraill. Mae athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig priodol i ddisgyblion ac, yn gyffredinol, mae bron pob un ohonynt yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i ramadeg, atalnodi a sillafu. Mae disgyblion yn pennu eu targedau unigol eu hunain yn annibynnol ac yn monitro eu cynnydd, sy'n hybu perchenogaeth o brosesau dysgu.

Mae athrawon a staff cymorth yn y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol a chyffrous i ddisgyblion, sy'n eu galluogi i ymchwilio, adeiladu ac ymarfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau cymdeithasol yn briodol. Mae gan y rhan fwyaf o staff ymwybyddiaeth da o egwyddorion y cyfnod sylfaen ac maent yn cynnwys disgyblion yn dda mewn cynllunio gweithgareddau a heriau, fel adeiladu cwch i archarwr gan ddefnyddio unedau safonol ym Mlwyddyn 1 a 2. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae egwyddorion darpariaeth estynedig yn cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad disgyblion a'r safonau maent yn eu cyflawni. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol a difyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Fodd bynnag, nid yw defnydd rheolaidd o'r ardal ddysgu awyr agored yn estyniad naturiol i'r ystafell ddosbarth bob tro. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae athrawon yn cynnig gweithgareddau pwrpasol i ddisgyblion, sy'n eu cymell ac yn ennyn eu brwdfrydedd tuag at ddysgu. Mae athrawon yn defnyddio atyniadau lleol yn ysgogiadau i wella geirfa disgyblion a chymhwyso empathi yn eu hysgrifennu creadigol.

Mae'r ysgol yn dilyn fframweithiau cenedlaethol a gofynion statudol i gynllunio tasgau cyffrous a symbylol i bob disgybl. Mae athrawon yn datblygu llythrennedd, rhifedd TGCh yn gynyddol drwy ystod o weithgareddau symbylol a difyr ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn defnyddio dulliau cydweithredol a hyblyg wrth gynllunio'r cwricwlwm, ac yn dechrau addasu darpariaeth yn barod ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru. Er bod athrawon yn cynllunio cyfleoedd i addysgu addysg grefyddol, nid yw'r cynlluniau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn llawn ar draws yr ysgol. Mae hyn yn golygu na all bob un o'r disgyblion fanteisio ar bob agwedd ar y cwricwlwm statudol.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd mae athrawon a staff yn ddelfryd ymddwyn ragorol ar gyfer y Gymraeg. Mae hyn, yn ei dro, wedi gwella gallu disgyblion yn sylweddol i ynganu a mynegi ymadroddion Cymraeg sylfaenol o ddydd i ddydd. Mae athrawon yn cynllunio gwersi Cymraeg sydd wedi eu strwythuro'n dda. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a 4 yn defnyddio gwybodaeth flaenorol am batrymau brawddegau i ddisgrifio cymeriadau o chwedl Gymreig, fel Branwen, Bendigeidfran ac Efnisien. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynychu digwyddiadau lleol, sy'n ennyn eu diddordeb a'u brwdfrydedd i ddysgu am iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol, hynod lwyddiannus sy'n gofalu am, ac yn annog, ei disgyblion yn dda ac yn cynnal eu lles yn arbennig o lwyddiannus. Mae gwersi addysg bersonol a chymdeithasol wedi eu cynllunio'n drwyadl, mae eu cynnwys yn berthnasol ac maent yn bodloni gofynion pob disgybl. Mae hyn yn helpu disgyblion i ymgysylltu'n dda â'u dysgu a datblygu'n ddysgwyr hyderus.

Mae darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn effeithiol dros ben. Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda, yn nodi'r rhai y mae angen cymorth arnynt yn gynnar, ac yn darparu ymyriadau pwrpasol ar eu cyfer. Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n dda â rhieni. Maent yn cyfrannu'n llawn at y broses o bennu targedau i'w plant, ac at werthuso eu cynnydd yn ystod cyfarfodydd adolygu a sesiynau 'galw heibio' llai ffurfiol. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o wasanaethau cymorth arbenigol, fel swyddogion ymddygiad ac arbenigwyr, i gael cyngor ar strategaethau i'w defnyddio ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth penodol a mwy dwys. Mae hyn yn cynnwys cymorth gwerthfawr iawn i ddisgyblion bregus sy'n wynebu heriau emosiynol a chymdeithasol dros dro neu dros y tymor hwy. Mae'r rhaglenni ymyrraeth hyn, sydd wedi'u cynllunio'n dda, sy'n cael eu cyflwyno'n gyson gan gynorthwywyr dysgu yn yr ysgol, yn cael effaith dda iawn ar safonau lles disgyblion. Mae staff yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn effeithiol yn erbyn targedau yn eu cynlluniau unigol, sy'n sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cryf. O ganlyniad, mae'r cymorth sy'n cael ei gynnig gan staff medrus yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniadau disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, a'u hawydd i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu. Mae hyn yn un o gryfderau arbennig yr ysgol.

Mae'r systemau olrhain sy'n cael eu defnyddio gan uwch arweinwyr yn monitro safonau disgyblion yn effeithiol, ac yn sicrhau bod y targedau y mae athrawon yn eu pennu yn uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy. Mae'r holl athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn barhaus, ac yn cynnal trafodaethau proffesiynol pwrpasol i ystyried p'un a fyddant yn elwa ar ymyriadau targedig ychwanegol ai peidio. Mae olrhain

presenoldeb yn effeithiol, a'r protocol dilynol i annog a chynorthwyo gwelliant, wedi arwain at godi cyfraddau presenoldeb. Mae'r ysgol yn monitro ymddygiad disgyblion yn dda iawn ac yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol arbenigol. Mae hyn wedi arwain at ddull cadarnhaol iawn o reoli ymddygiad disgyblion a sicrhau diwylliant gwrthfwlio cryf.

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau gwaith effeithiol sydd wedi cyfoethogi darpariaeth i ddisgyblion a chodi eu deilliannau. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen wedi arddangos eu gwaith pwnc ar 'Dŵr' gydag ysgolion lleol. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymharu dehongliadau, ac yn annog rhagor o gydweithio rhwng athrawon ac ysgolion.

Mae cyfleoedd defnyddiol i rieni ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o waith yr ysgol, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen. Mae llawer o'r sesiynau penodol sy'n cael eu cynnig iddynt yn denu cynulleidfa fawr ac yn effeithiol o ran sicrhau bod rhieni'n cydweithio â'r ysgol i gynorthwyo cynnydd eu plant.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae mentrau i annog byw'n iach wedi'u hymgorffori'n dda yn niwylliant yr ysgol. Un enghraifft nodedig o arfer dda yw'r cydweithio rhwng disgyblion a staff tuag at y nodau lles cyffredinol yn y 'Pum Ffordd at Les'. Mae athrawon yn gwerthuso holiaduron disgyblion yn effeithiol i nodi agweddau ar eu lles a diogelwch ar-lein sydd angen sylw neu angen eu hatgyfnerthu ymhellach. Mae'r rhain o fudd i ddatblygiad a lles personol disgyblion.

Mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o'u lle yn y byd ehangach yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae 'Wythnos Dysgu Gyda'n Gilydd' ysgolion yn rhoi cyfle i ddisgyblion benderfynu ar gyfeiriad eu dysgu, gan ddatblygu gwybodaeth ddofn am wledydd o amgylch y byd. Mae cynlluniau athrawon yn sicrhau bod dealltwriaeth pob un o'r disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang a'u hymdeimlad o gydraddoldeb, amrywiaeth a goddefgarwch wedi'u datblygu'n dda iawn. Mae'r ysgol yn sicrhau bod datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn cael ei feithrin yn briodol ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, mewn gwersi ac mewn gwasanaethau ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd helaeth i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o glybiau ar ôl ysgol, gan gynnwys clybiau creadigol ac ystod eang o weithgareddau chwarae a cherddorfa'r ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, codwyd pryder yn ymwneud â mater iechyd a diogelwch penodol ag arweinwyr yr ysgol yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth a'r staff wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n bodloni anghenion pob dysgwr yn llwyddiannus. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio'n dda ar osod disgwyliadau uchel ar gyfer lles academaidd, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion mewn cymuned ddysgu ofalgar a chynhwysol. Mae arweinwyr wedi creu ethos cefnogol sy'n galluogi pob aelod staff i weithio'n gydweithredol ac yn effeithiol er mwyn i ddisgyblion gyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus, diogel a

gofalgar. O ganlyniad, mae disgyblion a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae rhoi'r weledigaeth hon ar waith gan yr holl staff wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar brofiadau a deilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffocws hynod lwyddiannus ar ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n bwrpasol ar gyfoethogi addysgu a phrofiadau dysgu i ddisgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at lwyddiant y rhan fwyaf o athrawon o ran tanio brwdfrydedd a dychymyg disgyblion. Mae'r ysgol yn ymdrechu i fynd i'r afael ag egwyddorion y cwricwlwm newydd i Gymru, ac mae athrawon yn llunio cynlluniau eglur sy'n canolbwyntio'n glir ar ddatblygu disgyblion yn ddysgwyr uchel eu cyflawniad.

Mae'r pennaeth wedi ailstrwythuro'r tîm arweinyddiaeth yn synhwyrol i ffurfio tîm brwdfrydig o unigolion sydd â dealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth cymharol newydd ac arweinwyr canol yn datblygu ffocws ar reolaeth strategol yr ysgol, ac yn gweithio'n ymwybodol i godi safonau a chyflwyno mentrau i wella addysgu. Maent yn datblygu eu medrau monitro'n briodol ac, er eu bod yn canolbwyntio'n dda ar safonau a darpariaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb, mae eu casgliadau'n aml yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn ddigon gwerthusol bob tro.

Mae arweinwyr yn ystyried ystod o dystiolaeth uniongyrchol yn briodol i werthuso arfer yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys craffu ar waith disgyblion, arsylwi gwersi, dadansoddi data diwedd cyfnod allweddol a thrafod gwaith â dysgwyr. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r prosesau monitro yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth ddigon clir bob tro o ble mae bylchau mewn darpariaeth, fel mewn addysg grefyddol. Mae cynlluniau gwella'n diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella yn dda. Enghraifft dda o hyd yw'r targed a bennwyd i wella presenoldeb, er mwyn i'r ysgol gymharu'n dda ag ysgolion tebyg. Mae arweinwyr yn gwerthuso'r cynnydd a wnaed yn erbyn llawer o'r targedau yn y cynllun datblygu blaenorol yn dda. Mae gan yr ysgol hanes cryf o wneud gwelliannau, ac mae arweinwyr wedi ymateb yn bwrpasol i argymhellion arolygiadau blaenorol. Enghraifft nodedig o hyd yw'r gwelliant yn y Gymraeg a'r defnydd o rifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn rhoi cymorth effeithiol iddi. Maent yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac yn hybu ethos a gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus. Mae llawer o lywodraethwyr yn cynnal ymweliadau â'r ysgol, sy'n rhoi dealltwriaeth uniongyrchol iddynt o safonau ac effaith datblygiadau addysgegol diweddar. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu, ac maent yn chwarae rhan weithgar o ran cytuno ar bolisïau a blaenoriaethau'r ysgol. Mae eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n fuddiol. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt herio, er enghraifft, perfformiad merched mewn mathemateg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad i athrawon yn gyffredinol effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at sefydlu cysondeb mewn addysgu a darpariaeth. Mae arweinwyr yn defnyddio arbenigeddau staff yn llwyddiannus i ddatblygu meysydd cwricwlaidd penodol, fel gwyddoniaeth. Bu arweinwyr yn llwyddiannus o ran hybu diwylliant cyfoethog sy'n hyrwyddo cyfleoedd dysgu proffesiynol hynod effeithiol i'r holl staff. Maent yn gwneud hynny drwy roi cyfleoedd rheolaidd i athrawon ymchwilio i arfer

orau a gweithredu gwelliant i ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd i staff cymorth. Mae'r rhain wedi'u trefnu'n dda ac yn cynorthwyo'r staff i fodloni eu hanghenion dysgu proffesiynol penodol eu hunain, a datblygu eu rôl o ran cyflawni blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae staff yn rhannu eu medrau newydd yn effeithiol ag ymarferwyr eraill. Maent yn rhannu deilliannau eu dysgu proffesiynol â staff yn yr ysgol ac ysgolion eraill ar draws y consortiwm, yn enwedig mewn agweddau fel asesu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol lefel briodol o staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno cwricwlwm diddorol i ddisgyblion. Mae penderfyniadau ar wariant yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, ac mae arweinwyr yn defnyddio grantiau'n effeithiol i gynorthwyo dysgu i ddisgyblion. Enghraifft benodol o hyd yw'r ffordd effeithiol mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion i gynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle y bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2020